

Y LLINYN ARIAN

Cylchgrawn Capel Salem, Caernarfon. Mawrth 2021

Nos Iau, Dydd Gwener a Sul y Pasg.



Yn ystod swper, pan oedd y diafol eisoes wedi gosod yng nghalon Jwdas fab Simon Iscariot y bwriad i'w fradychu ef, dy-ma Iesu, ac yntau'n gwybod bod y Tad wedi rhoi pob peth yn ei ddwylo ef, a'i fod wedi dod oddi wrth Dduw a'i fod yn mynd at

Erbyn hyn yr oedd hi tua hanner dydd. Daeth tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn, a'r haul wedi diffodd. Rhwygwyd llen y deml yn ei chanol. Llefodd Iesu â llef uchel, "O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd." A chan ddweud hyn bu farw.



Wraig," meddai Iesu wrthi, "pam yr wyt ti'n wyllo? Pwy yr wyt yn ei geisio?" Meddai Iesu wrthi, "Mair." Troes hithau, ac meddai wrtho yn iaith yr Iddewon, "Rabbwni" (hynny yw, Athro. Ac aeth Mair Magdalen i gyhoeddi'r newydd i'r disgyblion. "Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd," meddai, ac eglurodd ei fod wedi dweud y geiriau

OEDFAON Y PASG (Ar Zoom)

Nos Iau Cablyd am 7 o'r gloch

Bore Gwener Groglith am 10 o'r goch—Gweinyddir y Cymun

Bore Sul y Pasg am 10 o'r gloch .


(manylion Zoom ar tudalen olaf)



Gair gan y Gweinidog .

Dyma'r ail Basg rydyn ni'n ei brofi mewn pandemig. Er fod Pasg 2021 dipyn gwahanol i Basg 2020 mae'r un rhwystredigaeth o beidio gallu dod at ein gilydd i ddathlu'r Pasg fel teulu eglwysig ac efo'n teuluoedd yn aros.

Llynnedd roedd y sefyllfa yn hollol newydd i ni. Roeddem mewn sioc a deud y gwir, yn ceisio arfer gyda'r drefn newydd oedd fel petai yn cymryd drosodd ein bywydau. Erbyn hyn ryda ni'n gwybod am bwysigrwydd gwisgo mwgwd, cadw pellter cymdeithasol, cyfarfod yn yr awyr agored, golchi dwylo ac awyru ystafelloedd gan fod y feirws yn lledaenu bennaf drwy'r aer.



Mi fydd y Pasg yma ychydig yn wahanol gan fod Salem ar zoom erbyn hyn! Deallwn nad yw hyn yn opsiwn i bawb, ond os nad ydych wedi ymuno â ni yn oedfa'r bore hyd yn hyn, beth am roi cynnig arni fore Sul Pasg? Fydd o ddim yr un peth a bod yn y capel, wrth gwrs, ond mae cyd-addoli zoom dros gyfrifadur, iPad neu dros y ffôn yn ail da. Cofiwch mae bosib ffonio i glywed y gwasanaeth yn fyw; byddai'n wych cael mwy ohonoch yn cysylltu efo ni i gyd-addoli.

Mi fyddai'r Pasg arbennig hwnnw pan atgyfododd Iesu wedi bod yn Basg rhyfedd iawn i'w ddilynwyr hefyd. Roedden nhw'n gwybod wrth ymlwed â Jerwsalem ar gyfer Gwyl y Pasg y flwyddyn honno fod pethau am fod yn wahanol; roedd Iesu wedi ceisio eu paratoi. Ond alla'i ddim byd eu paratoi ar gyfer yr hyn ddigwyddod. Dychmygwch yr emo-siynau y byddent wedi eu teimlo yn ystod y cyfnod; cynnwrf, ofn, anobaith, tristwch a galar ac yna llawenydd a gorfoledd wrth i wyrth Sul y Pasg eu taro.

Trodd dagrau tristwch ac anobaith Gwener y Groglith yn ddagrau o lawenydd a gorfoledd Sul y Pasg wrth i brofiad o'r Crist byw eu cyflwyno i fywyd newydd. Fyddai Iesu ddim efo nhw yn gorfforol o hyn ymlaen ond byddai efo nhw drwy ei Ysbryd a'i bresenoldeb dwyfol yn eu bywydau. Ein gobraith eleni yw y byddwn ni'n cael profiad newydd o lawenydd a gorfoledd Sul y Pasg yn ein bywydau ac ymwybyddiaeth ddyfnach o bresenoldeb Duw yng Nghrist yn ein calonnau.

Gorfoleddwn, Iesu mawr
Am y dydd y torrodd gwawr,
Bywyd Newydd ddaeth i ni

Wedi concwest Calfari .

D. Glyn Lewis .

HUNODD.

Dydd Gwener 19eg Chwefror bu farw **Mrs Beryl Jones, Penrhyn, 34 Y Grugan . Groeslon.** Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol pynhawn dydd Mawrth 2il o Fawrth ar lan y bedd ym mynwent Llanbeblig. Yn ei hangladd cafwyd teyrnged ar ran y plant gan Keith a Kevin. Myfyriwyd ar yr adnod 'Gweithred brydferth a wnaeth hon i mi '. Pan feddyliem am Mrs Jones 'roedd y geiriau ,Cartref, Croeso ,Capel, Canu , Cwmniaeth a Chariad yn dod i'r meddwl yn syth . I'r rhai gafodd gyfle i ymweld â hi ar ei haelwyd gwyddoch pa mor gynnes oedd ei chroeso bob amser. Gofidiai'n arw na fedrai ddod i'r capel ond er hynny ni anghofiodd am yr achos. Bu'r blynyddoedd olaf yn rhai anodd, yn enwedig y misoedd olaf mewn cartref gofal ac ysbyty ac aelodau'r teulu ddim yn cael ymweld oherwydd y firws. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r plant Keith, Linda, Nerys, Kevin , Bethan, Gwenno a'u teuluoedd yn colli ei mam.

COLLI PERTHYNAS

Mrs Rhian Jones, 10 Glanrafon, Bontnewydd ym marwolaeth ei gŵr Wil; Mr John Ian a Elizabeth Jones, Bryn y Mor, Ffordd Bangor ym marwolaeth Grace chwaer i John.

'Fel y cysurir plentyn gan ei fam byddaf fi'n eich cysuro chwi' Eseia Yr wyf yn rhoi i chwi fy nghanegfedd i fy hun. Ioan 14:27

YN YR YSBYTY .

Mr Elwyn Parry, Roma, Ffordd Bethel.—Ysbyty Gwynedd Meddyliwn am deulu Aaron Davies , 40 Y Glyn sy'n glaf yn ysbyty Gwynedd ers mis Tachwedd llynedd. Cyflwynwn ein cofion cynhesaf i'w fam Menai a'i chwiriorydd Eira ag Angharad.

CYFNOD YN YR YSBYTY.

Mrs Edwina Parry 6 Cae Corn Hir, Miss Nerys Jackson, 35 Caeau Bach, Mr Alun Roberts, Melangell, Lôn Ysgubor Wen, Mrs Wendy Griffiths, 36 Bron y Garth. Mr Ronald Williams, Llys yr Eifl, Mr John Griffiths, 30 Bron y Garth Mrs Hilda Roberts, Tonnau Gwynion, Ffordd Menai, Mrs Rhian Mair Williams, Taliesyn, Y Clogwyn, a dau o blant y capel Llew Rhys a Twm Emlyn.

LLONGYFARCHIADAU

Manon a Prysor Aled , Ty'n y Maes, Llandwrog ar enedigaeth eu merch ; Gwawr Elena, chwaer fach i i Tirion Prys, ac i Wynne a Enid Williams , Yr Efail, Bethel ar ddod yn Nain a Taid unwaith eto.

Meddyliwn am ein haelodau sydd **MEWN CARTREFI PRESWYL**

Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.

Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.

Cartref Gwynfa, Bontnewydd : Mrs Joan Roberts.

Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i chi ac i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref .

CROESO

Derbyniwyd llythyr gan y Parch Gwynfa Evans, Capel Harrow Llundain yn trosglwyddo llythyr aelodaeth Mrs Iona Hughes sydd wedi ymgartrefu yn Glynderi, 6 Llwyn Ceirios , Caernarfon. I chi sydd ddim yn gyfarwydd â Mrs Hughes; mam Ifor ap Glyn yw hi, ac yn barod 'rydym wedi gweld newid yn Ifor gyda'i fam yn byw mor agos iddo! Mrs Hughes fydd yr aelod cyntaf yn hanes y capel i gael ei derbyn yng nghyfnod y Clo! Cawn ei chwmmi ar Zoom yn oedfa bore Sul yn gyson ac edrychwn ymlaen i'r amser y cawn ei chroesawu yn y capel.

DIOLCH

CYD-DRYSORYDDION.

Ym mhwyllgor gwaith yr eglwys ar Zoom yn mis Rhagfyr, derbyniwyd llythyr gan Mr Emyr V. Evans, cyd-drysorydd yr eglwys yn dymuno cael ei rhyddhau o'i ddyletswyddau. Diolchwn iddo am yr holl waith a wnaeth. Mae bod yn gyd-drysorydd eglwys yn un o'r swyddi hynny sy'n cynnwys llawer o waith yn y dirgel a dim ond y rhai sydd â phrofiad yn y maes wŷr am gyfrifoldebau'r gwaith. Gobeithiwn na fydd Emyr yn breuddwydio gormod am ffigyrau a Chyllid a Thollau EM ! Llawer o ddiolch i chi Emyr.

Wedi derbyn neges Emyr, y cam nesaf oedd meddwl am bobl yn Salem fyddai'n barod i gymryd y cyfrifoldeb o gynorthwyo gyda'r gwaith, ac yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith ar Zoom yn Chwefror, cafwyd gwybod fod Dylan a Sioned Owen wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i wneud y gwaith . 'Roedd hyn yn gyfrwng llawenydd a diolchgarwch. Cyn ymateb yn gadarnhaol, roedd yn rhaid cysylltu cysylltu â Greta Alaw, a'i hymateb oedd ei bod yn eceited fod ei rhieni am helpu'r achos yn Salem! Bydd llawer yn cofio tad Dylan, Malcolm, a fu'n gyd-drysorydd yn Salem .Cofiw'n yn annwyl am ei gymwynasau a'i gariad at yr achos. Wrth ddechrau ar eu gwaith bydd Dylan a Sioned mewn dwylo diogel ac yn cydweithio gyda Mr Alun Jones . Gwyddom i gyd am ei waith caled a chyson Alun i ni fel eglwys ar hyd y blynyddoedd. Mae'n anodd i bawb amgyffred yr oriau a roi'r i'r gwaith yma .

Mae'n diolch yn fawr hefyd i Mr Hugh Prys Jones am ei gymorth a'i gyngor parod bob amser i drysoryddion yr achos.

PWYLLGOR GWAITH

Aelodau newydd : Arolyges a Is Arolyges yr Ysgol Sul : Elen Medi Morgan a Ceri Grisdale, Cynrychiolwyr Rhieni : Elen Wyn Roberts a Heddwen Lois Williams. Dylan a Sioned Owen (cyd-drysoryddion) Elfyn Owen (Cadeirydd Pwyllgor Adeiladau)

PWYLLGOR ADEILADAU.

Un o bwyllgorau prysuraf yr eglwys yw'r P.A sy'n gyfrifol am adeiladau Salem; Y Capel, Festri a'r Tŷ Capel. Ar wahanol adegau bydd agenda'r P A yn drwm fel ddigwyddodd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gan roi sylw arbennig i Tŷ Capel, System Gwresogi a'r lladrad ddigwyddodd llynedd . Mae newidiadau wedi digwydd i aelodaeth a swyddoion y P A. Bu John Grisdale yn gadeirydd am sawl blwyddyn a Emyr Humphreys yn ysgrifennydd . Dymuniad Emyr yw cael ei rhyddhau ar hyn o bryd . Diolch iddo am ei ofal cydwybodol a gobeithiwn na fydd yr amser yn hir cyn cawn ei gwmi eto. Y Cadeirydd newydd yw Elfyn Owen a John Grisdale yn gweithredu fel ysgrifennydd. Croesawn Mr Gareth Jones, 14 Marina, Felinheli yn aelod newydd. Os oes unrhyw aelod sydd a diddordeb yn yr adeiladau ac yn awyddus i berthyn i'r P A rhowch wybod.

PENBLWYDD CAPEL SALEM .

Fel arfer byddwn yn dathlu ar ail Sul yn Mai drwy gynnal Gŵyl Bregethu a mynd am ginio'r Sul. Gwahoddir gweinidogion o bell ac agos i arwain ein haddoliad. Ar y Sul, gwneir casgliad arbennig at y Gwelliannau. Gan nad ydym yn gwybod i sicrwydd pryd fyddwn nol yn y capel ni fydd amlen y Gwelliannau

Nid oes trefniadau ynglyn âynd nol i'r capel wedi eu pennu ar hyn o bryd. Trafodir y mater ar ol y Pasg.

*Os ydych am gyfrannu at y capel, gellir gwneud hynny drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod: **Côd y Banc i'w dalu 40-16-02. Rhif y cyfrif i'w dalu 70724556.** Os gwnewch hyn, nodwch enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda. Nodwch hefyd : CASGLIAD GWELLIANNAU neu OFFRWM WYTHNOSOL.

*neu drwy anfon sic e i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfán, 22 Llys Meirion, Caernarfon LL55 1LE

*os yn anfon sic, gwnewch y sic yn daladwy i:
CAERNARFON os gwelwch yn dda.

CAPEL SALEM

Profiad gwahanol fu dathlu Gŵyl Dewi ar Zoom eleni. Ar y noson darparwyd Cwis lluniau ar Gymru gan John Grisdale. Ni chafodd neb farciau llawn—'luniau rhy anodd' medd rhai tra bod eraill yn cydnabod anwybodaeth! Derbyniwyd nifer o luniau a gwaith llaw gan y plant i'w arddangos. Cafwyd beirniadaeth safonol a theg gan y Prifardd Ifor ap Glyn i gystadleuaeth y limerig a'r frawddeg.

Ennillydd y limerig - Mererid Mair.

Bob tro y rhown frecwast i'r plant,
Fe gofiwn am gyngor 'rhen Sant

Gan ddweud wrth ein hunain,

Wrth wneud pethau bychain –

Mae'n rhy gynnar i ganu cerdd-dant!

Canmoliaeth uchel

Dim siocled i foddio ein chwant. (Mair Price)
Ymborthwn fel na byddo chwant.(Rhiannon Roberts)

BRAWDDEG : DEWISANT.

Ennillydd : Esyllt Penri Bebb

Daw eto wanwyn i'n sirioli a'i naws tyner

Canmoliaeth uchel

Daeth Ellis William i sefyll ar naw tangerin. (Mererid Mair)

Doesdim eleni wledda ini, safwch adra' nenno'r tad.(Rhian Williams)

Daw'r enfys wedi'r ing sy'n arwydd newid tynged. (Ron)

Dewch i Ddathlu Gwyl Dewi ar zoom!

Nos Lun 8 Mawrth 7yh

- Rhai eitemau
 - Cwis am Gymru
 - Hoff luniau o Gymru
 - Gorffen limerig:
Bob tro y rhown frecwast i'r plant
Fe gofiwn am gyngor 'rhen Sant,
Gan ddweud wrth ein hunain
Wrth wneud pethau bychain.....
 - Creu brawddeg o'r enw Dewi Sant:
Pob gair i ddechrau efo'r llythrennau yn eu tro
 - Creu llun/darn o gelf ar y thema Cymru
- Plis anfonwch eich ymgais i fewn erbyn Nos Sadwrn i jron.tabsalem@gmail.com



Manylion cysylltu
zoom yr un peth ag
oedfa'r Sul!

WYTHNOS CYMORTH CRISNOGOL 9—15 Mai 2021

Yn ystod Wythnos CC eleni cawn gyfarfod Florence sy'n byw yn Kenya. Mae hi'n llawn bywyd, cariad a llawenydd. Ffermwr ydy hi, ac mae nifer o ffermwyr ei hardal yn edrych i fyny iddi hi. Rhai blynyddoedd yn ôl, colodd Florence ei gwr. Ar y pryd, nid oedd ganddi ddwr i dyfu cynydau. Roedd ei phlant yn llwgu. Roedd yn gorfod cerdded am oriau ar lonydd peryglus i nol dwr. "Roedd bywyd yn ddiflas" medd Florence. Gallai yn hawdd fod wedi rhoi'r ffidil yn y to. Ond mae Florence yn un sy'n dal ati ac mae'n annog ffermwyr eraill ei hardal i ddal ati. Erbyn hyn, wrth ymyl ei fferm, mae cronfa ddwr newydd yn llawn o ddwr ffres; ac mae Florence a'r gymuned wrth eu bodd. Diolch i'ch cyfraniadau at Wythnos CC a help partner Cymorth Cristnogol ADSE, roedd yn bosib i Florence a'i chymuned adeiladu y gronfa ddwr nepell o'r pentref.



Mae amlen Cymorth Cristnogol yn eiconig erbyn hyn. Fe wyddom ni wrth roi arian yn yr amlen goch lachar yna fod bywydau yn mynd i gael eu trawsnewid gan Bartneriaid Cymorth Cristnogol yng ngwledydd tlotaf ein byd. Ond beth sy'n digwydd pan na allwn ddsbarthu amlenni o dy i dy fel yr ydym yn arfer ei wneud? Tydy peidio derbyn amlen ddim yn golygu na fedrwn gyfrannu. Ac unwaith eto eleni mae modd cyfrannu at waith Cymorth Cristnogol mewn mwy nag un ffordd. Os oes well gennych anfon siec, mae posib gwneud hynny drwy anfon eich siec at drefnydd Cymorth Cristnogol yn y gogledd; Llinos Roberts. Gwneud y sieciau yn daladwy i; Cymorth Cristnogol a'i ddanfôn i Llinos Roberts, Y Gorlan Trefor. LL54 5HH.

Neu mae'n bosib cyfrannu yn uniongyrchol ar lein drwy fynd i: <https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week>

Mae bosib anfon e-amlen hefyd i rywun. Ceir mwy o wybodaeth am hyn wrth ddilyn y linc yma <https://envelope.christianaid.org.uk/your-e-envelope/add>



Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Ffrwyth proses hir a manwl o ad-drefnu a chymhwyso rhai o gronfeydd ariannol yr Undeb at ddefnydd cyfoes, yn enw Duw, yw'r rhaglen hon.

Mae'n agored i eglwysi sy'n cwrrd yn llawn â thelerau eu haelodaeth o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. (*Tâl aelodaeth a'r Cwota.*)

Mae dymuniad i'r rhaglen fod yn fwy na chronfa nawdd ariannol, felly anogir eglwysi sy'n ystyried ei mabwysiadu i:

1. gysylltu a'r Undeb ar eu cyfle cyntaf. Bydd hynny'n golygu bod modd sicrhau bod y nawdd yn seiliedig ar weithgaredd partneriaeth fywiol rhwng yr eglwysi a'r Undeb
2. wneud eu bwriadau'n hysbys i'w cyfundeb, ac yn achos prosectau sy'n ymwneud â hyfforddi'n benodol, â Choleg yr Annibynwyr Cymraeg

Oes gennych syniad ar ein cyfer fel eglwys a fyddai'n addas ar gyfer Cynllun Arloesi a Buddsoddi yr Undeb. Cysylltwch â'r gweinidogion i drafod ymhellach.

